

Cofnod o weithgareddau Cofid Gorffennaf - Awst 2020

Cynllunio

Bull Deiniolen – Gwrthwynebu ar sail gormod o sŵn I breswylwyr cyfagos ac angen lle parcio.

Cae Rhos, Llanddeiniolen – Gwrthwynebu ar sail mynediada rhy gul, Gwaith carffosiaeth gerllaw a gormodedd o Tai Haf yn yr ardal.

Cae Corniog Bach, Penisarwaun – Dim Sylwadau, cais amaethyddol.

Rhiw Goch, Clwt y Bont – Dim sylwadau o'r Newydd, ond bod yn rhaid gwella draeniau ar gyfer dwr I arbed llifogydd.

Gwynfryn, Carreg y Gath Rhiwlas – Gwrthwynebu ar sail

1. Gor ddatblygu
2. Mae mynediad ffordd yn rhy gul o'r Eglwys fach ac o'r hen Swyddfa Bost.
3. Mae problemau Parcio enfawr fel y mae hi ar hyn o bryd yng Ngharreg y Garth, a buasai adeiladu tŷ ychwanegol yn ymestyn y broblem.
4. Nid yw'r cais yma yn gweddu i gymeriad y tai cyfagos.
5. Llwybr Cyhoeddus Rhif 73 a 74 - Nid ydym yn sicr sut mae caniatáu'r adeilad yma yn mynd i effeithio'r llwybrau ac yn mynd i sicrhau fod mynediad clir i'r ffynnon gerllaw.
6. Adroddiad Ecolegol ac Ystumod - Nid ydym yn fodlon derbyn yr adroddiad yn ddiuedd gan fod yna gysylltiad teuluol â'r ymgeisydd.
7. Rydym angen mynegi pryder am y llwybrau cyhoeddus o amgylch adeilad y cais cynllunio, gan fod y perchennog eisoes wedi ceisio symud y llwybr. Mae sawl cwyn wedi dod i mewn i'r Cyngor Cymuned oherwydd y llwybr cwrteisi sydd wedi cael ei wneud heb ymgynghori a'r Cyngor Cymuned.

Oherwydd y gwrthwynebiadau uchod, tybed oes modd rhoi cais i gael pwyllgor neu gyfarfod safle gan y Pwyllgor Cynllunio?

Carreg y Gath Uchaf - Hysbyseb ar gwefan Air B&B yn hysbysebu carafan gyda defnydd o 'quirky toilet'. Mae yno lle parcio motor home hefyd. Pryderon ei fod yn fusnes.

Fferm Carreg y Gath Isaf – Angen swyddog I ymweld. 1 chalet yno ers blynyddoedd I fod st ddefnydd swyddfa, ond perchnogion yn byw yno ers rhai blynyddoedd. Mae yna estyniad o

rhyw patio gyda tô wedi ei wneud iddo hefyd. Yna blwyddyn a hanner yn ôl death chalet aral yno ac mae'r mab yn byw yn hwnnw, tra mae'r perchnogion yn rhentu y tŷ fel ty haf. Ddim yn sicr os oes cais cynllunio arno, ond bellach mae parcio yn broblem yno, ac yn parcio ar stryd.

Llwybrau

Gyrru llythyr a chais I gywir y mapiau diffiniol. Mae sawl camgymeriad yn y mapiau yma e.e. dangos llwybrau yn mynd o amgylch dai neu caeau. Mae cais wedi ei wneud o'r blaen pan oedd sawl cyngor cymuned yn cwyno, ond yr ateb a gafwyd pryd hynny oedd and oedd digon o gyllid. Tybed oes posib cael cywiro y mapiau yma bellach? Llythyr wedi ei yrru 28ain Awst

Giat Mochyn Carreg y Gath – dwr yn casglu rhwng y ddwy giat. Llwybr 74 yn cyfarfod a llwybr Ty'n Llidiart I gyfeiriad Rallt. Llythyr wedi yrru I Gwynedd ar 2ail Fedi.

Mapiau – Llwybr sydd yn mynd heibio Gwynfryn yn anghywir. Llythyr wedi derbyn o Gwynedd yn cydnabod hynny. Cais I Gwynedd ddechrau'r broses cyhoeddus I gywiro y mapiau cyn gynted a phosib.

I.C.O.FFi blynyddol cofrestrriad Diogelu Data (GDPR) Mae hwn wedi ei dalu trwy Debid Uniongyrchol Blynyddol £40

Mainc Maes Chwarae Clwt y Bont

Cafwyd e bost yn nodi fod braich y fainc wedi malu a'r plac ar goll. Rwyf wedi ffonio Keith Morgan yn syth Iddo fynd yno rhag ofn ei bod yn beryg ac I'w trwsio. Ynglyn a'r plac, dwi'n meddwl fod sawl plac o'r meinciau mileniwm ar goll. Nid wyf yn siwr be oedd ar y plac, ond dwi'n credo mai wedi ei dylunio gan y diweddar Gwilym Williams ac wrth gwrs wedi ei wneud o lechen. Er ceisio chwilio am blac, roedd y busnes wrth gwrs wedi cayu, ond rwy'n meddwl bod rhywyn wedi prynnu y busnes yn Llanberis nawr a mae'r siop ar agor yn ôl. Efallai cawn drafodaeth ar y plac a'r meinciau yn ein cyfarfod nesaf.

Cynllun Llechi

Cynghorydd Elfed Williams wedi derbyn syniad gan Gwenan Pritchard o gynllun llechi ynglyn â Gorsaf Bws Rhydfadog. Cawn wybodaeth pellach gan Elfed yn y cyfarfod nesaf.

Ymgynghori Anghenion Tai

Brynrefail - Holiadur a llythyr wedi eu gyrru allan 2ail Fedi I drigolion Brynredail a'r ardal gan Cwmni Cynefin.

Penisarwaun

Ship – Tyfiant coed angen eu torri ger troiad stablau.

Dŵr llifogydd – Dwr yn casglu ger yr Hen Ficerdy a bellach draw am Tan y Gaer.

Cadarnhau Taliadau

517 – £96.05